



Technoleg Glyfar, Gwnaethpwyd i Ofalu

## Buzzz

Derbynnydd Larwm Cludadwy

Canllaw  
Rhaglennu v1.0



Mae'r 'Buzzz' yn dderbynnydd larwm cludadwy arolesol, wedi'i gynllunio i wneud gofal yn haws ac yn symlach.

Caniatáu i'r gofalwr dderbyn rhybuddion ar unwaith wrth gefnogi hyd at 150 o ddyfeisiau. Gydag arddangosfa LCD sgrin gyffwrdd, mae'r 'Notifier' yn syml, yn reddfodol i'w ddefnyddio ac yn addasadwy, gan ddarparu cymorth wedi'i addasi i ofalwyr ar y safle.

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	Tudalen 2
Be sydd yn y bocs?.....	Tudalen 2
Gwybodaeth gyffredinol.....	Tudalen 3
Dewislen gosodiadau.....	Tudalen 4
Dewislen gweinyddol.....	Tudalen 5
Dewislen opsiynau.....	Tudalen 6
Cynnal a chadw.....	Tudalen 7
Cwestiynau cyffredin datrys problemau .....	Tudalen 8
Manylebau.....	Tudalen 9

## Cyflwyniad

Mae'r Buzz yn dderbynnydd larwm cludadwy. Wedi'i gynllunio i wneud gofalu yn haws ac yn symlach heb yr angen am linell ffôn neu ganolfan fonitro. Gan gefnogi hyd at 150 o ddyfeisiau, mae'r Buzz yn caniatáu i'r gofalwr dderbyn rhybuddion ar unwaith, gan eu galluogi i ddarparu lefel uchel o ofal effeithlon. Mae'r dyluniad unigryw yn caniatáu i'r Buzz eistedd yn gyffyrddus mewn unrhyw gartref.

- Sgrin gyffwrdd LCD lliw
- Opsiynau cwbl addasadwy
- Yn cefnogi hyd at 150 o ddyfeisiau ar gyfer gwahanol amgylcheddau
- Opsiynau rhybuddio sain, dirgrynu a golau sy'n fflachio
- Cloc a chloc larwm
- Dyfais gwrth-ficrobaidd, hawdd ei glanhau, sy'n gwrthsefyll dŵr
- Dangosydd statws batri a gwefr
- PIN i amddiffyn gosodiadau
- Opsiwn prawf cerdded i wirio cryfder y signal
- Opsiwn gweld neu safio hanes y galwadau
- Uwchlwytho data ar gyfer adroddiadau rheoli
- Modd safonol ar gyfer defnydd 1:1 a modd mwy datblygedig mewn lleoliad mwy cymhleth

## Be sydd yn y bocs?



## Gwybodaeth Gyffredinol

### Gosod a gwefru

1. Mewnosodwch y 'Mini USB' yng nghefn yr orsaf wefru a'r plwg USB yn y cyflenwad pŵer.
2. Mewnosodwch y cyflenwad pŵer USB mewn soced drydanol. Bydd y LEDs glas yn goleuo yn yr orsaf wefru a bydd pedair tŵn yn cael eu hallyrru yn fuan wedi hynny.
3. Rhowch y Buzz yn yr orsaf wefru. Ar ddefnydd cyntaf, bydd angen hyd at 2.5 awr ar y Buzz i wefru'n llawn. Mae'n arferol i'r Buzz swnio sawl gwaith wrth wefru am y tro gyntaf. Bydd y Buzz hefyd yn gwefru os caiff ei ddiffodd, er na fydd unrhyw arwydd ar y sgrin. Mae mwy o wybodaeth am y weithdrefn wefru batri ar dudalen 7.
4. Dilynwch y canllaw hwn am wybodaeth ar sut i gofrestru dyfeisiau yn y Buzz ac addasu gosodiadau yn ôl eich dewisiadau gofynnol.

Nodyn: Mae cyflenwad pŵer Buzz a gwifren gwefru wedi'u cynllunio'n benodol i weithio gyda'r cysylltiadau gwefru'r Buzz. Sicrhewch na ddefnyddir unrhyw gyflenwad pŵer nac wifrau eraill oherwydd gallai hyn achosi problemau.

### I ffwrdd/Ymlaen ag 'Standby'

Pwyswch a dal y botwm  am 6 eiliad i roi'r Buzz ymlaen

Pwyswch a dal y botwm  am 6 eiliad i roi'r Buzz i ffwrdd - Pwyswch 'Yes' i gadarnhau rhoi'r peiriant i ffwrdd

Pwyswch y botwm  am eiliad i roi'r sgrin yn 'standby', a'r un peth i'w deffro eto.

Bydd y Buzz yn mynd i mewn 'standby' yn awtomatig, os nad oes unrhyw weithgaredd o fewn y cyfnod Oedi Sgrin (gweler tudalen 6)

### Prif sgrin (heb unrhyw rybudd ar y system)

Mae'r brif sgrin yn cynnwys, o'r top i'r gwaelod:

- Cryfder y batri (symbol batri yn ymddangos 5 eiliad ar ôl i'r sgrin oleuo)
- Dyddiad
- Amser
- Modd Dydd (os caiff ei droi ymlaen ac o fewn y cyfnod amser, gweler tudalen 7)
- Rhybuddion Actif (ni fyddant yn ymddangos oni bai bod rhybuddion yn cael eu gohirio wrth ddefnyddio Modd 'Advanced'. Gweler tudalen 6)
- Cloc Larwm (wedi'i droi ymlaen / i ffwrdd wrth bwysu'r eicon)
- Botwm gosodiadau

Awgrym: Tapiwch symbol y batri i fflipio'r sgrin wyneb i waered. Mae hyn yn ddefnyddiol wrth ei wisgo gyda'r clip gwregys.

### Prif sgrin (gyda rhybudd ar y system)

Pan fydd dyfais gofrestredig yn actifadu, mae'r brif sgrin yn cynnwys, o'r top i'r gwaelod:

- Cryfder signal y ddyfais (mae hyn yn arddangos ar y sgrin ar gyfer y gloch gyntaf yn unig)
- ID y ddyfais wedi'i actifadu (mae hon yn arddangos ar y sgrin ar gyfer y gloch gyntaf yn unig)
- Enw wedi'i aseinio i'r ddyfais
- Lleoliad wedi'i aseinio i'r ddyfais
- Math o ddyfais
- Cryfder batri'r ddyfais (mae hyn yn arddangos ar y sgrin ar gyfer y gloch gyntaf yn unig)
- Modd Safonol - Botwm OK. Modd 'Advanced' - 'Delay', 'OK' a 'Clear' (Esbonnir y rhain ar dudalen 6)

### Cydnabod rhybudd yn y Modd Safonol

Mae Modd Safonol fwyaf addas pan dim ond un Buzz sy'n cael ei ddefnyddio. Mae mwy o wybodaeth ar dudalen 6.

- Pwyswch y botwm 'OK' i gydnabod y rhybudd.

### Cydnabod rhybudd yn y Modd 'Advanced'

Mae Modd 'Advanced' yn fwyaf addas pan ddefnyddir dwy neu fwy Buzz. Mae mwy o wybodaeth ar dudalen 6.

- Pwyswch y botwm 'OK' i gydnabod y rhybudd yn syth
- Pwyswch y botwm 'Delay' i ohirio'r rhybudd. Bydd y rhybudd yn dychwelyd ar ôl yr amser Oedi Rhybudd (Tudalen 6)
- Pwyswch y botwm 'Clear' i glirio rhybudd os na allwch roi sylw iddo.

## Dewislen Gosodiadau

Yn y Ddewislen Gosodiadau, gallwch chi addasu'r Buzzz trwy'r eiconau ar y sgrin yn ôl eich dewisiadau personol. Esbonnir pob eicon dewislen isod:

### Dirgrynu/Strôb

Pan fydd y Buzzz yn rhybuddio, mae ganddo'r gallu i ddirgrynu a fflachio'r sgrin sy'n debyg i strôb. Gellir troi'r opsiynau hyn ymlaen neu i ffwrdd yn y lleoliad 'Vibrate/Strobe'. Tapiwch yr eicon a defnyddiwch y saethau i fyny / i lawr a'r botwm 'OK' i newid pob opsiwn.

### Disgleirdeb

Gellir addasu'r disgleirdeb ar gyfer y sgrin a'r LEDs glas yn yr orsaf wefru yn y gosodiad hwn. I addasu'r disgleirdeb arddangosfa sgrin, tapiwch yr eicon 'Display' a defnyddiwch y saethau i fyny / i lawr a'r botwm 'OK' i newid yr opsiwn.

Nodyn: Y fwyaf disglair yw'r arddangosfa sgrin, y mwyaf y bydd yn effeithio ar fywyd batri.

Mae'r opsiwn 'Charger' yn rheoli disgleirdeb y LEDs glas yn yr orsaf gwefru. Mae Lefel 0 yn diffodd y LED tra bod lefel 3 y fwyaf disglair. Tapiwch yr eicon a defnyddiwch y saethau i fyny / i lawr a'r botwm 'OK' i newid y gosodiad.

Nodyn: Bydd yr addasiadau yma yn actifadu pan fydd y Buzzz yn cael ei roi yn yr orsaf wefru tro nesaf

### Sain

Gellir addasu'r sain ganu a'r gyfrol esgynnol yn y ddewislen 'Volume'

Mae'r sin yn amrywio o 0 (distaw) i 3 (uchel).

Gellir troi tŵn esgynnol ymlaen neu i ffwrdd. Mae'n dechrau o gyfaint o 0 ac yn cronni'n raddol.

Nodyn: Bydd y rhybudd yn dawel am y 20 eiliad cyntaf os bydd yr opsiwn esgynnol yn cael ei droi ymlaen.

Nodyn: Pan fydd y Buzzz yn gwefru, mae'r orsaf wefru yn chwyddo'r sain mewn perthynas â gosodiad cyfrol y sain. Bydd yr addasiadau hyn yn cael eu hactifadu pan fydd y Buzzz yn cael ei roi yn yr orsaf wefru y tro nesaf

### Amser

Dangosir yr amser ar y sgrin flaen ond mae hefyd yn bwysig ei osod ar gyfer adrodd yn gywir am ddigwyddiadau a hefyd wrth ddefnyddio'r opsiwn Modd Dydd. Tapiwch bob eicon a defnyddiwch y saethau i fyny / i lawr a'r botwm 'OK' i osod yr oriau a'r munudau

### Dyddiad

Dangosir y dyddiad ar y sgrin flaen ond mae hefyd yn bwysig ei osod ar gyfer adrodd yn gywir am ddigwyddiadau. Tapiwch bob eicon a defnyddiwch y saethau i fyny / i lawr a'r botwm 'OK' i osod y diwrnod, y mis a'r flwyddyn.

### Cloc Larwm

Gellir defnyddio'r Buzzz fel cloc larwm. Tapiwch y saethau i fyny / i lawr a'r botwm 'OK' i osod yr oriau a'r munudau. Gellir troi'r cloc larwm ymlaen ac i ffwrdd trwy dapio'r logo ar y brif sgrin.

## Dewislen Gweinyddol

Defnyddir y Ddewislen Weinyddol ar gyfer gosodiadau, rheoli dyfeisiau, ac opsiynau mwy datblygedig. Esbonnir pob eicon dewislen isod a drosodd:

### Bysellbad 'Qwerty'

Nodwedd unigryw o'r Buzzz yw'r gofyniad i nodi PIN, gan sicrhau na all defnyddwyr diawdurdod gael mynediad i osodiadau beirniadol. I gael mynediad i'r Ddewislen Weinyddol, nodwch y PIN cywir ac yna 'Ent'. Dylid defnyddio ysgrifbin sgrin gyffwrdd i sicrhau mewnbwn cywir.

Rhif y PIN i gychwyn yw 1234, gellir newid hwn o fewn y ddewislen weinyddol

### Prawf Cerdded

Wrth ddefnyddio'r Buzzz mewn eiddo mwy, mae'n hanfodol bod prawf amrediad yn cael ei gynnal i sicrhau fod y pellter gweithio yn llawn i'r ardal sydd angen eu monitro

Pan fydd dyfais yn cael ei actifadu yn yr opsiwn 'Walk Test', bydd y Buzzz yn neud sŵn a bydd yr arddangosfa'n rhestru'r wybodaeth ganlynol:

- ID y ddyfais wedi'i actifadu.
- Statws batri.
- Hunaniaeth hecsadegol unigryw.
- Cryfder y signal (Uchafswm 5, Lleiaf 0)
- Cryfder signal ystod ehangach

Bydd y botwm 'Reset' yn clirio profion blaenorol o'r sgrin.

Os yw canlyniad y prawf amrediad yn profi bod yr eiddo yn rhy fawr i'r Buzzz, rydym yn argymhell defnyddio ein Orion i estynnu pellter gweithio'r holl ddyfeisiau. Hefyd, mae gan ein holl ddyfeisiau newydd ystod estynedig a fydd yn sicrhau'r pellter gweithio gorau posibl. Rhybudd: Byddwch yn ymwybodol na ellir derbyn rhybudd go iawn pan fydd y Buzzz mewn prawf cerdded, ac nad fydd yn derfyn amser ben eu hun. I adael y prawf cerdded, pwyswch y botwm fynd yn ôl. Nid yw profion cerdded yn dangos yn y cofnod hanes

### Dyfais Newydd

Gall y Buzzz storio hyd at 150 o ddyfeisiau, gyda phob un wedi'i osod i enw a lleoliad unigryw. Mae'r broses gofrestru yn reddfodol iawn ac yn arwain y defnyddiwr trwy bob cam. Cyn cychwyn, sicrhewch fod y ddyfais yr hoffech ei chofrestru yn barod i'w gofrestru gan fod yn rhaid ei gweithredu o fewn 12 eiliad yng nghanam 6 isod:

1. Rhowch Enw (15 llythyren ar y mwyaf)
2. Rhowch Leoliad (15 llythyren ar y mwyaf)
3. Modd Dydd Ymlaen / I ffwrdd (gweler tudalen 6)
4. Math o ddyfais. Mae'r opsiwn hwn yn ddefnyddiol os nad yw pwrpas arferol dyfais yn cael ei ddefnyddio (e.e. gellir enwi PIR sydd wedi'i leoli wrth ochr gwely yn synhwyrdd gwely yn lle). Defnyddiwch y saethau i sgrolio trwy'r rhestr ac yna tapio'r disgrifiad gofynnol.
5. Crynodeb, pwyswch 'OK' i gofrestru dyfais neu'r botwm i fynd yn ôl i ddychwelyd i'r brif ddewislen.
6. Actifadu dyfais (actifadu dyfais o fewn 12 eiliad)

### PIN Newydd

Gellir newid y PIN yn yr adran 'Change PIN'. Rhowch y PIN cyfredol yn gyntaf, ac yna'r PIN Newydd.

### Hanes

Mae pedwar opsiwn i'r adran hanes:

- **'Upload Devices'**. Gellir gweld / arbed dyfeisiau cofrestredig ar gyfrifiadur personol / gliniadur gan ddefnyddio ein meddalwedd 'Alerts Viewer' am ddim. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.
- **'Upload Events'**. Gellir gweld / arbed hanes rhybuddion ar gyfrifiadur personol / gliniadur gan ddefnyddio ein meddalwedd 'Alerts Viewer' am ddim. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.
- **'View Devices'** - Mae'r opsiwn hwn wedi'i leoli yn yr adran hanes i sicrhau ei bod yn anoddach golygu neu ddileu dyfeisiau yn anfwriadol. Pan fydd yr eicon wedi'i dapio, bydd y tri synhwyrdd cofrestredig cyntaf yn cael eu rhestru, defnyddiwch y saeth i lawr i gael mynediad i'r tri nesaf, ac ati. Tapiwch y synhwyrdd gofynnol yna dewiswch 'Edit' neu 'Delete', a dilynwch y cyfarwyddiadau.
- **'Event Log'**. Gellir gweld hanes rhybuddio ar y sgrin. Mae'r 964 digwyddiad diwethaf yn cael eu cadw ar y Buzzz.

## Dewislen Opsiynau

Mae'r ddewislen opsiynau yn caniatáu addasiadau i'r opsiynau mwy datblygedig yn y Buzz. Esbonnir pob eicon dewislen isod:

### Gosodiadau Modd Dydd

Mae'r opsiwn 'Day Mode' yn caniatáu i'r Buzz ddiystyru rhai rhybuddion o fewn ffenestr amser sydd wedi'i raglennu. Er mwyn egluro, modd dydd yw'r cyfnod pan na fydd dyfeisiau wedi'u hamseru yn actifadu rhybudd. All nifer o ddyfeisiau ddefnyddio modd dydd ond dim ond un cyfnod amser all rhaglenni

- **'Day Start'**. Gosodwch yr oriau a'r munudau o fewn yr opsiwn hwn (ni fydd y ddyfais yn rhybuddio yn ystod yr adeg hon).
- **'Day On/Off'**. Rhaid troi hwn ymlaen os ydych chi'n defnyddio modd dydd.
- **'Day End'**. Gosodwch yr oriau a'r munudau o fewn yr opsiwn hwn (bydd y ddyfais yn dechrau rhybuddio o'r amser yma).

Nodyn: Rhaid i'r gosodiadau uchod gael eu galluogi yn opsiwn dyfais newydd (tudalen 6) yn gystal ag opsiwn modd dydd i synhwyrydd weithio yn y modd hwn

### Oedi Sgrin

Dyma'r cyfnod amser cyn i'r sgrin fynd i gysgu os caiff ei gadael yn segur. Mae'r gosodiadau'n amrywio o 1-5:

1. 30 eiliad 2. 1 munud 3. 1 munud 30 eiliad 4. 2 munud 5. 2 munud 30 eiliad

Nodyn: Y hiraf yr oedi sgrin, y mwyaf y bydd yn effeithio ar fywyd batri.

### Tonau

Mae gan y Buzz bedwar opsiwn tŵn. Sgrolwch trwy bob un ac yna pwyswch 'OK' i ddewis y tŵn a ddymunir.

Nodyn: Os oes angen tŵn hirach, trowch yr opsiwn 'Strobe' ymlaen (Dewislen Gosodiadau - tudalen 4).

### Oedi Rhybuddio

Os ydych yn defnyddio modd 'Advanced' (gweler 'Modd' isod), yr 'Delay Alert' yw'r cyfnod amser cyn i rybudd sydd wedi oedi ail-greu. Mae'r amrediad rhwng 1-5 yn cynyddu'r oedi o gyfnodau 30 eiliad:

1. 30 eiliad 2. 1 munud 3. 1 munud 30 eiliad 4. 2 munud 5. 2 munud 30 eiliad

### Radio

Mae dau opsiwn yn yr adran hon - 'Economy' a 'Boost'

'**Economy**' yn darparu mwy o fywyd batri ond ni ddylid ei ddefnyddio gyda dyfeisiau penodol fel cysylltiadau drws a PIRs.

'**Boost**' yn darparu ystod gynyddol ac yn addas ar gyfer pob dyfais.

Nodyn: Os ydych chi'n ansicr pa un i'w ddefnyddio, rydym yn argymhell modd 'Boost'

### Modd

Mae gan y Buzz ddau opsiwn modd. Y bwriad yw defnyddio'r 'Standard Mode' mewn sefyllfa lle mai dim ond un Buzz sydd ei angen tra bod 'Advanced Mode' yn fwy addas pan fydd mwy nag un Buzz yn cael ei ddefnyddio.

Mae tudalen 3 yn esbonio sut i gydnabod rhybudd yn y ddau fodd.

Yn 'Standard Mode', cydnabyddir rhybudd trwy wasgu'r botwm 'OK'.

Yn 'Advanced Mode', gellir cydnabod rhybudd trwy wasgu'r botwm 'OK', neu gellir gohirio, neu glirio'r rhybudd.

Os yw'r botwm 'OK' yn cael ei wasgu, bydd y rhybudd yn clirio.

Os yw'r botwm 'Delay' yn cael ei wasgu, bydd y rhybuddion yn mynd i mewn i giw y gellir ei chyrraedd trwy'r eicon 'Active Alerts' ar y brif sgrin (dim ond os oes rhybuddion mewn ciw bydd yr eicon hwn yn ymddangos). Bydd rhybudd oedi yn dychwelyd ar ôl cyfnod wedi'i raglennu ymlaen llaw (gweler Oedi Rhybudd uchod). Gellir gohirio hyd at 30 o rybuddion os oes angen.

Dyluniwyd y botwm 'Clear' er mwyn ofalwr pwyso os nag allant roi sylw i'r rhybudd.

## Gofal a chadw

### Cleaning the charging contacts on the Buzzz and Charging Base

Dyluniwyd y Buzzz a'i gorsaf gwefru i hwyluso gwefru yn hawdd heb orfod delio ag ceblau wrth eu rhoi ymlaen ac i ffwrdd. Oherwydd y dyluniad hwn, mae'n bwysig sicrhau bod y cysylltiadau ar y Buzzz a'r pinnau ar y gwaelod yn lân. Gan fod y Buzzz yn ddyfais gludadwy, gall y cysylltiadau gael eu halogi'n hawdd gan lwch, budreddi, briwsion, ac ati. Mae siawns hefyd y bydd y pinnau ar yr orsaf wefru wedi'u halogi.

I lanhau'r cysylltiadau ar y Buzzz a'r pinnau ar yr orsaf wefru, defnyddiwch yr ysgrifbin glanhau gwydr ffibr amgaaedig. Troelli ben yr ysgrifbin nes bod blaen y brwsh gwydr ffibr yn weladwy, yna brwsiwch y brwsh yn erbyn y cysylltiadau / pinnau. Ar ôl gorffen, trowch y Buzzz a'r orsaf wefru wyneb i lawr i adael i unrhyw weddillion ddisgyn allan. Gwnewch hyn yn rheolaidd, hyd yn oed os yw'r cysylltiadau / pinnau'n edrych yn lân, gan mai dim ond ychydig bach o halogiad y mae'n ei gymryd i darfu ar wefru.

Esbonnir y broses hon hefyd ar ein fideo YouTube - [https://youtu.be/WHdR3y\\_rau](https://youtu.be/WHdR3y_rau)

Nodyn: Peidiwch â defnyddio'r ysgrifbin glanhau gwydr ffibr ar unrhyw ran o'r Buzzz neu'r orsaf wefru heb law am y cysylltiadau gan ei fod yn offeryn sgraffiniol a bydd yn niweidio arwynebau anfetelaidd.

### Nodweddion gwefru a monitro batri wedi gwella

Mae'r meddalwedd newydd yn cynnig system goleuadau traffig ar gyfer adborth mwy gwybodus pan fydd y Buzzz mewn neu allan o'r orsaf wefru. Bydd hefyd yn cynhyrchu rhybudd clywadwy a gweledol i hysbysu a oes cysylltiad gwael rhwng yr orsaf wefru a'r Buzzz. Tri lliw symbol y batri yw coch, oren a gwyrdd. Mae coch yr isaf a gwyrdd yr uchaf. Pan fydd symbol y batri yn goch, neu ar lefel isel ambr, dylid gwefru'r Buzzz.

Os nad yw'r cysylltiadau wefru yn lân, neu os nad yw'r Buzzz yn cysylltu'n dda â'r orsaf wefru, dylai'r Buzzz swnio rhybudd clywadwy a bydd 'Poor Contact' yn cael ei arddangos ar y sgrin. Os fydd hyn yn digwydd, glanhewch y cysylltiadau fel y disgrifir uchod. Dylai'r cysylltiadau hefyd gael eu glanhau os oes unrhyw broblemau gwefru.

Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gwnewch yn siŵr bod y Buzzz yn cael ei gwefru am o leiaf 2.5 awr ac yna ei ailwefru pan fydd y batri bron wedi rhedeg allan o wefriad, yn debyg i sut y dylid trin ffôn symudol.

### Gweithdrefn Ailosod

Mae botwm ailosod ar ochr isaf yr orsaf wefru. Defnyddiwch y camau canlynol i ailosod y Buzzz:

1. Sicrhewch fod yr orsaf wefru ymlaen.
2. Gan ddefnyddio clip papur neu offeryn addas, pwyswch a dal y botwm ailosod am tua 5 eiliad. Dylai'r LEDs glas ar yr orsaf wefru ddechrau fflachio.
3. Tra bod y LEDs glas yn fflachio, rhowch y Buzzz yn yr orsaf wefru.
4. Efallai y bydd y brif sgrin yn fflachio am tua 15-20 eiliad, ac ar ôl hynny fydd y Buzzz wedi ei ailosod.

Nodyn: Ni fydd hyn yn dileu unrhyw ddyfeisiau cofrestredig nac yn newid unrhyw osodiad.

## Cwestiynau cyffredin datrys problemau

### C1: A oes angen cynnal a chadw rheolaidd ar y Buzzz?

I lanhau'r cysylltiadau ar y Buzzz a'r pinnau ar yr orsaf wefru, defnyddiwch yr ysgrifbin glanhau gwydr ffibr amgaeedig. Troelli ben yr ysgrifbin nes bod blaen y brwsh gwydr ffibr yn weladwy, yna brwsiwch y brwsh yn erbyn y cysylltiadau / pinnau. Ar ôl gorffen, trowch y Buzzz a'r orsaf wefru wyneb i lawr i adael i unrhyw weddillion ddisgyn allan. Gwnewch hyn yn rheolaidd. Esbonnir y broses hon hefyd ar ein fideo YouTube - <https://youtu.be/r4eq3xV3IB8>  
Esbonnir y broses hon yn fanylach ar dudalen 7.

### C2: Pam nad yw'n ymddangos bod y Buzzz yn gwefru?

Os nad yw'r Buzzz yn gwefru, efallai y bydd rhywfaint o halogiad ar y cysylltiadau gwefru, neu'r pinnau ar yr orsaf wefru. Glanhewch y cysylltiadau ar y Buzzz a'r orsaf wefru fel y disgrifir ar dudalen 7. Os yw'r cysylltiadau wedi'u glanhau yn barod, ceisiwch ail-leoli'r Buzzz yn yr orsaf wefru eto

Nodyn: Mae cyflenwad pŵer Buzzz a'r cebl gwefru wedi'u cynllunio'n benodol i weithio gyda'r cylchedau gwefru yn y Buzzz. Sicrhewch na ddefnyddir unrhyw gyflenwad pŵer nac cebl eraill oherwydd gallai hyn achosi problemau.

### C3: Pam mae'r Buzzz yn arddangos 'Poor Contact' wrth wefru?

Mae'r Buzzz yn canfod gwrthiant yn y gylched wefru. Glanhewch y cysylltiadau ar y Buzzz a'r orsaf wefru fel y disgrifir ar dudalen 7. Os yw'r cysylltiadau wedi'u glanhau yn barod, ceisiwch ail-leoli'r Buzzz yn yr orsaf wefru eto

### C4: Mae'r Buzzz yn ymddwyn yn rhyfedd, a allaf ei ailosod?

Gallwch. Mae botwm ailosod ar ochr isaf yr orsaf wefru. Defnyddiwch y camau canlynol i ailosod y Buzzz:

1. Sicrhewch fod yr orsaf wefru ymlaen.
2. Gan ddefnyddio clip papur neu offeryn addas, pwyswch a dal y botwm ailosod am tua 5 eiliad. Dylai'r LEDs glas ar yr orsaf wefru ddechrau fflachio.
3. Tra bod y LEDs glas yn fflachio, rhwch y Buzzz yn yr orsaf wefru.
4. Efallai y bydd y brif sgrin yn fflachio am tua 15-20 eiliad, ac ar ôl hynny fydd y Buzzz wedi ei ailosod.

Nodyn: Ni fydd hyn yn dileu unrhyw ddyfeisiau cofrestredig nac yn newid unrhyw osodiad.

### C5: Pam mae'r sgrin wyneb i waered?

Tapiwch eicon y batri i fflipio'r sgrin wyneb i waered, ac eto i'w fflipio yn ôl. Mae hon yn nodwedd fwriadol sy'n ddefnyddiol wrth wisgo'r Buzzz gyda'r clip gwregys.

### C6: Pam mae'r bîp seinydd a 'Pressure On Screen' yn cael eu harddangos?

Mae hon yn nodwedd fwriadol i rybuddio am rywbeth sy'n pwysu ar y sgrin.

### C7: Pam yw'r Buzzz ddim yn actifadu pan dderbynnir rhybudd?

A yw'r Buzzz wedi'i droi ymlaen? A yw Modd Dydd ymlaen? Gwiriwch y gall y Buzzz dderbyn rhybuddion gan ddyfeisiau eraill (mae prawf cerdded yn ddefnyddiol ar gyfer hyn). Gwiriwch fod y ddyfais yn weithredol hefyd. Ailosod y Buzzz fel y disgrifir yn gwestiwn 4

### C8: Pam nad yw'r Buzzz yn swnio pan dderbynnir rhybudd?

Gwiriwch fod y gyfrol sain wedi'i gosod i fod yn uwch na 0. Hefyd gwiriwch a yw'r opsiwn esgyn ymlaen, bydd rhybudd yn dawel am yr 20 eiliad cyntaf os caiff yr opsiwn esgyn ei droi ymlaen.

### C9: Nid yw'n ymddangos bod modd dydd yn gweithio?

Amser cychwyn y modd dydd yw'r amser yr hoffech i'r s roi'r gorau i rybuddio. Yr amser stopio yw'r amser yr hoffech i'r synhwyrdd ddechrau rhybuddio. Rhaid troi modd dydd ymlaen yn y ddewislen opsiynau ac wrth gofrestru'r ddyfais hefyd. Esbonnir y broses hon yn fanylach ar dudalen 6.

### C10: Mae'r sgrin yn goch gyda neges COMMS ERROR RF, beth mae hynny'n ei olygu?

Mae'r neges hon yn nodi nam ar y derbynnydd radio, sy'n golygu nad yw'n derbyn unrhyw drosglwyddiadau o ddyfeisiau. Ceisiwch berfformio ailosodiad (Tudalen 7). Os na fydd hyn yn ei ddatrys, efallai y bydd angen newid y Buzzz a'i anfon yn ôl i'w atgyweirio.

### C11: Nid wyf yn siŵr a oes gan y Buzzz ddigon o bellter gweithio i'r lleoliad i gyd

Ar gyfer y mwyafrif o osodiadau, dylid cynnal prawf cerdded i sicrhau bod yr eiddo llawn wedi'i orchuddio. Wrth berfformio'r prawf, dylid actifadu'r ddyfais yn y lleoliad y bydd yn cael ei gosod, e.e. os yw'n synhwyrdd gwely, ei actifadu o'r gwely.

Os yw canlyniad y prawf yn profi bod yr eiddo'n rhy fawr i'r Buzzz, rydym yn argymhell defnyddio ein Orion i estynnu pellter gweithio'r holl ddyfeisiau.



## Manylebau

Amledd Gweithredu	869 MHz
Maint	H117 x L156 x D14 mm
Gwefru	2.5 awr / Yn para hyd at 3 diwrnod
Pellter gweithio ddi-wifr	Hyd at 600m
Pwysau	85g
Dŵr ymdreiddiad	Yn gwrthsefyll dŵr (gall oroesi trochi dros dro mewn dŵr)
Cydymffurfio	CE / RoHS 2 / RED
Gwarant	24 mis

### Pacio ar gyfer cludo

Rhaid i'r offer sy'n cynnwys celloedd neu fatris gael eu pacio mewn pecynnau anhyblyg cryf a rhaid eu sicrhau rhag symud o fewn y deunydd pacio allanol i atal actifadu damweiniol. Rhaid i enw a chyfeiriad dychwelyd yr anfonwr fod yn amlwg ar y pecyn allanol.

### Diogelwch

Peidiwch â datgymalu na newid yr uned. Peidiwch ag agor y casin. Mae'r Buzz yn gwrthsefyll dŵr felly gellir ei ddefnyddio yn y mwyafrif o leoliadau ond dylid defnyddio'r orsaf wefru dan do mewn ardaloedd sych yn unig.

### Datganiad cydymffurfiaeth:

Trwy hyn, mae Cair (UK) Ltd yn datgan bod y math o offer radio, Cair Buzz yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb 2014/53/EU

### Gwaredu

Dylid cael gwared ar yr holl wastraff electronig yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Rhaid ei waredu o fewn y llif gwastraff trydanol ac electronig a pheidio â chael gwared arno yn y llif gwastraff arferol. Mae ailgylchu cynhyrchion gwastraff trydanol yn helpu i warchod adnoddau naturiol ac atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd.

Cysylltwch â'ch cyflenwr os bydd angen mwy o wybodaeth arnoch.

